**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1424
Ein cyf/Our ref CG/00049/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

08 Mai 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth ynglŷn â deiseb P-06-1424 ynghylch diwygio Bil Diwygio'r Senedd i gynnwys darpariaethau a fyddai'n golygu bod etholaethau'n cael cymeradwyo codiadau cyflog yr Aelodau o'r Senedd.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio diwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gynnwys darpariaethau a fyddai'n caniatáu i Etholwyr pob Aelod gael pleidlais rwymol i gymeradwyo neu wrthod codiad cyflog cytunedig ar sail perfformiad. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn Fil gan y Senedd, ac rwyf wedi bwrw ati i ymdrin yn adeiladol â gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer y Bil drwy gydol y broses o graffu'n ddeddfwriaethol arno. Fodd bynnag, mewn democratiaeth gynrychiadol, mae'n bwysig bod Aelod yn gallu datgan ei safbwyntiau heb ofn na ffafriaeth, gan gynnwys pan fo'r safbwyntiau hynny efallai'n amhoblogaidd. Hoffwn osgoi unrhyw amgylchiadau lle y gallai Aelodau gwahanol deimlo bod ganddynt lefelau gwahanol o ryddid i fynegi eu barn wleidyddol, a hynny yn sgil eu sefyllfaoedd ariannol personol.

Rwyf hefyd yn nodi y bydd darpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cynyddu amlder etholiadau i'r Senedd, ac felly'n sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer adnewyddu democrataidd. Bydd hefyd yn cynyddu atebolrwydd yr Aelodau drwy ganiatáu i'r etholwyr fynegi eu barn ynghylch perfformiad Aelodau yn amlach.

Diolch ichi am y cyfle i roi sylw ar y ddeiseb.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.